# DEDDF DELWYR METEL SGRAP 2013

# DATGANIAD O'R POLISI TRWYDDEDU



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Awdur a gwasanaeth: David Lloyd Roberts, Polisi a Pherfformiad
Dyddiad cymeradwywyd gan Cabinet: 8fed Mai 2018
Asesiad Effaith Integredig: Oes
Dyddiad cyhoeddi: 8fed Mai 2018
Dyddiad Adolygu Polisi: 7fed Tachwedd 2021

# Cynnwys


**Cyngor Sir CEREDIGION County Council** **Error! Bookmark not defined.**

1. Cyflwyniad 4

Y gyfraith 4

Diffinio deliwr metel sgrap 4

2. Ymgynghori 5

3. Mathau o drwyddedau 5

Trwydded safle 6

Trwydded casglwr 6

4. Gwneud cais 6

5. Addasrwydd ymgeiswyr 7

6. Penderfynu ar gais/Rhoi trwydded 7

Hawl i wneud sylwadau llafar 8

(Apelio yn erbyn y penderfyniad cychwynnol i wrthod neu i ddirymu trwydded) 8

7. Rhoi gwybod am benderfyniad 9

8. Amrywio trwydded 9

9. Dirymu trwydded 9

10. Apelio 10

11. Cofrestr trwyddedau 10

12. Gofynion hysbysu 11

13. Arddangos trwydded 11

14. Gwirio manylion cyflenwr 12

15. Talu am fetel sgrap 12

16. Cofnodion: derbyn metel 12

17. Cofnodion: Gwaredu metel 13

18. Cofnodion: Atodol 13

19. Cydymffurfiaeth 14

20. Cau safleoedd didrwydded 14

Dehongli 14

Hysbysiad cau 14

Canslo hysbysiad cau 15

Gwneud cais am orchymyn cau 15

Gorchymyn cau 15
Terfynu gorchymyn cau drwy dystysgrif 16
Rhyddhau gorchymyn cau gan lys 16
Apelio 16
Gorfodi gorchymyn cau 17
21. Dirprwyo awdurdod 17
ATODIAD 1 GWNEUD CAIS 18
GWEITHDREFN AR GYFER SYLWADAU LLAFAR (GWRANDAWIADAU) 19
ATODIAD 2 TROSEDDAU PERTHNASOL 23
ATODIAD 4 DIRPRWYO PWERAU 28

| 1. Cyflwyniad | |
|---|---|
| 1.1 | Mae’r polisi hwn a gymeradwywyd yng nghyfarfod Cabinet Cyngor Sir Ceredigion ar 8 Mai 2018 yn amlinellu gofynion Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 (y Ddeddf). Mae'n rhoi canllawiau i ymgeiswyr newydd, deiliaid trwydded ac aelodau o'r cyhoedd ynghylch y ffordd y bydd y Cyngor yn gweinyddu ac yn gorfodi gofynion y Ddeddf. |
| | |
| 1.2 | Er nad yw'r Ddeddf yn dweud ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi polisi, roedd yn teimlo y byddai’n arfer da iddo wneud hynny. Bydd yn adolygu'r polisi yn ôl y gofyn. Gall Cyngor Sir Ceredigion (yr awdurdod trwyddedu) wyro oddi wrth ei bolisi ei hun os bydd amgylchiadau unigol yn cyfiawnhau gwneud hynny. Mewn achosion o'r fath, bydd y Cyngor yn egluro'r holl resymau dros wneud hynny. |
| | |
| 1.3 | Dros y blynyddoedd diwethaf, mae dwyn metel wedi cael effaith sylweddol ar gymunedau, busnesau ac awdurdodau lleol fel ei gilydd. Mae wedi tarfu ar rwydweithiau cyfathrebu a’r rheilffyrdd, mae adeiladau, eglwysi a henebion wedi’u difrodi, ac mae gorchuddion draeniau, arwyddion ffyrdd a nwyddau cartref wedi’u dwyn. Lluniwyd Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 i helpu i atal rhai o'r problemau hyn o ran gwerthu, casglu, storio a gwaredu metel sgrap. |
| | |
| **Y gyfraith** | |
| 1.4 | Cafodd Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 ("y Ddeddf") y Cydsyniad Brenhinol ar 28 Chwefror 2013. Bu i'r Ddeddf ddiddymu Deddf Delwyr Metel Sgrap 1964 (a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig) a Rhan 1 o Ddeddf Cerbydau (Troseddu) 2001, a chreu trefn reoleiddiol ddiwygiedig ar gyfer y diwydiannau ailgylchu metel sgrap a datgymalu cerbydau. |
| | |
| 1.5 | Yn unol â'r Ddeddf, mae'r awdurdodau lleol yn parhau i fod yn brif reoleiddwyr, ond mae trefn drwyddedu lawn yn disodli'r hen system gofrestru. Mae'n rhoi pŵer i’r awdurdodau wrthod rhoi trwydded i ymgeiswyr "anaddas" a dirymu trwydded os bydd deliwr yn dod yn "anaddas". |
| | |
| 1.6 | Yn unol â'r Ddeddf, mae'n ofynnol i ddeliwr metel sgrap gael trwydded i fasnachu fel deliwr metel sgrap. |
| | |
| **Diffinio deliwr metel sgrap** | |
| 1.7 | Mae unigolyn yn masnachu fel deliwr metel sgrap:<br>a) os yw'n prynu neu’n gwerthu metel sgrap yn llwyr neu'n rhannol (p'run a yw'n cael ei werthu ar y ffurf y cafodd ei brynu ai peidio)<br>neu<br>b) os yw'n masnachu fel gweithredwr adfer moduron (gweler 1.9). |
| | |
| 1.8 | NI THYBIR bod unigolyn sy'n gwerthu metel sgrap fel deunydd dros ben neu sgil-gynnyrch eitemau a weithgynhyrchwyd yn ddeliwr metel sgrap. |
| | |

| | |
|---|---|
| 1.9 | Mae'r Ddeddf yn diffinio gweithrediaeth adfer moduron fel busnes sy'n ymwneud yn llwyr neu'n rhannol ag:<br>a) tynnu rhannau y gellir eu hadfer o gerbydau i'w hailddefnyddio neu'u gwerthu, gan werthu gweddill y cerbyd ar gyfer sgrap;<br>b) prynu cerbydau sydd tu hwnt i’w trwsio’n ddarbodus, eu hatgyweirio a'u hailwerthu;<br>c) prynu neu werthu cerbydau modur a fydd yn destun unrhyw rai o'r gweithgareddau a nodir yn (a) neu (b);<br>d) gweithgareddau sy'n perthyn yn llwyr neu'n bennaf i baragraffau (b) ac (c). |
| | |
| 1.10 | Mae metel sgrap yn cynnwys:<br>a) unrhyw fetel neu ddeunydd metalig sy'n hen, yn wastraff neu wedi'i daflu, a<br>b) unrhyw gynnyrch, gwrthrych neu gydosodiad sydd wedi'i wneud o fetel neu sy'n cynnwys metel ac sydd wedi torri, wedi treulio neu wedi cyrraedd diwedd ei oes ddefnyddiol yn nhyb ei ddeiliad diwethaf. |
| | |
| 1.11 | Nid yw metel sgrap yn cynnwys:<br>a) aur;<br>b) arian; nac<br>c) unrhyw aloi y gellir priodoli 2% neu ragor o'i bwysau i aur neu arian. |
| | |
| **2. Ymgynghori** | |
| | |
| 2.1 | Yn unol â'r Ddeddf, nid yw'n ofynnol i'r Cyngor roi polisi ffurfiol ar waith i ymdrin â cheisiadau a wneir o dan Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013. O ran arfer gorau, mae'r Cyngor wedi penderfynu mabwysiadu polisi ffurfiol at y diben hwn. |
| | |
| 2.2 | Wrth lunio'r datganiad polisi hwn, bydd y Cyngor yn ymgynghori â delwyr metel sgrap/gweithredwyr adfer moduron, Heddlu Dyfed Powys, Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff y diwydiant. |
| **3. Mathau o drwyddedau** | |
| | |
| 3.1 | Bydd ar unrhyw un sydd am weithredu busnes angen trwydded safle neu drwydded casglwr. Gall unigolyn ddal mwy nag un drwydded gan wahanol awdurdodau lleol, ond ni chaiff ddal mwy nag un drwydded gan yr un awdurdod. Mae'r drwydded yn ddilys am dair blynedd ac mae'n caniatáu i'r deiliad weithredu o fewn ffiniau'r awdurdod sydd wedi rhoi'r drwydded. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Trwydded safle** | |
| 3.2 | Rhoddir trwydded gan y cyngor y mae'r safle metel sgrap wedi'i leoli yn ei ardal. I gael trwydded safle, bydd rhaid pennu'r holl safleoedd o fewn ardal yr awdurdod lleol lle mae'r trwyddedai'n masnachu fel deliwr metel sgrap ac enwi rheolwr ar gyfer pob safle. Bydd y drwydded yn caniatáu iddo weithredu o'r safleoedd hynny, gan gynnwys cludo metel sgrap i'r safleoedd hynny ac ohonynt o ardal unrhyw awdurdod lleol. Cyn rhoi trwydded safle, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymchwilio i sicrhau bod y caniatâd cynllunio cywir wedi'i roi. |
| | |
| **Trwydded casglwr** | |
| 3.1 | Mae trwydded casglwr yn caniatáu i ddeiliad y drwydded weithredu fel 'casglwr symudol' yn ardal yr awdurdod lleol sydd wedi rhoi'r drwydded. |
| | |
| 3.2 | Casglwr symudol yw unigolyn sydd a) yn masnachu fel deliwr metel sgrap ac eithrio ar safle a b) sy'n ymwneud yn rheolaidd, yng nghwrs y busnes hwnnw, â chasglu deunyddiau gwastraff neu wrthrychau sy'n hen, wedi torri, wedi treulio neu wedi'u difrodi drwy fynd o ddrws i ddrws. Mae'r drwydded hon yn caniatáu iddo gasglu unrhyw fetel sgrap fel y bo'n briodol, gan gynnwys metel sgrap masnachol a domestig. Nid yw'n caniatáu i'r casglwr gasglu o ardal unrhyw awdurdod lleol arall; dylai gael trwydded wahanol ar gyfer pob awdurdod lleol. |
| | |
| 3.3 | Nid yw'r drwydded yn caniatáu i drwyddedai fasnachu ar safle mewn unrhyw ardal. Os bydd casglwr am ddefnyddio safle penodol, bydd rhaid iddo gael trwydded safle gan yr awdurdod lleol perthnasol. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran y lleoliad y gall y casglwr gludo ei ddeunydd iddo a'i werthu. |
| | |
| 3.4 | Caiff unigolyn ddal mwy nag un drwydded gan wahanol awdurdodau, ond NI chaniateir iddo ddal mwy nag un drwydded gan yr un awdurdod lleol. |
| **4. Gwneud cais** | |
| | |
| 4.1 | Pan fydd y Cyngor yn ystyried cais, bydd yn rhoi sylw i:<br>• Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013;<br>• unrhyw reoliadau ategol;<br>• canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. |
| | |
| 4.2 | Nid yw hyn yn tanseilio hawl unrhyw unigolyn i wneud cais o dan Ddeddf 2013 i gael trwydded na'i hawl i'w gais gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. |
| | |
| 4.3 | Caiff unigolyn sy'n masnachu, neu sy'n bwriadu masnachu, fel deliwr metel sgrap wneud cais i'r Cyngor i gael ei drwyddedu. Rhaid iddo gyflwyno'r cais yn ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys y manylion gorfodol a nodir yn Atodiad |

| | |
|---|---|
| | 1. |
| | |
| 4.4 | Caiff awdurdod lleol ofyn i ymgeisydd ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol yn ei dyb ef er mwyn iddo ystyried a yw'r ymgeisydd yn addas. Nodir yr wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol yn Atodiad 1. |
| | |
| 4.4 | Rhaid darparu'r ffi a bennwyd gan y Cyngor, o dan ganllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol, gyda'r cais. |
| | |
| 4.5 | Os na fydd yr ymgeisydd yn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, gan gynnwys unrhyw ddogfennau ategol ychwanegol, caiff y Cyngor wrthod y cais ar y sail nad yw'n gais dilys. |
| | |
| **5. Addasrwydd ymgeiswyr** | |
| | |
| 5.1 | Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a yw ymgeisydd yn berson addas i fasnachu fel deliwr metel sgrap. |
| | |
| 5.2 | Wrth benderfynu, caiff y Cyngor ystyried unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol yn ei dyb ef, gan gynnwys a oes unrhyw gamau gorfodi perthnasol wedi'u cymryd yn erbyn yr ymgeisydd neu a yw'r ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd berthnasol. Ceir rhestr o'r troseddau perthnasol yn Atodiad 2. |
| | |
| 5.3 | Rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch penderfynu a yw ymgeisydd yn addas. |
| | |
| 5.4 | Caiff y Cyngor ymgynghori ag asiantaethau eraill ynghylch addasrwydd ymgeisydd, gan gynnwys:<br>• unrhyw awdurdod lleol arall;<br>• Asiantaeth yr Amgylchedd;<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru;<br>• un o swyddogion yr heddlu;<br>• adran Iechyd yr Amgylchedd yr awdurdod lleol;<br>• Safonau Masnach. |
| | |
| **6. Penderfynu ar gais/Rhoi trwydded** | |
| | |
| 6.1 | Os yw'r Cyngor yn fodlon bod ymgeisydd yn 'berson addas' i ddal Trwydded Deliwr Metel Sgrap, rhaid iddo roi trwydded. |
| | |
| 6.2 | Wrth benderfynu, bydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r hyn a ganlyn:<br>• A yw'r ymgeisydd neu unrhyw reolwr safle wedi'i gael yn euog o unrhyw drosedd berthnasol heb ei disbyddu;<br>• A gymerwyd unrhyw gamau gorfodi perthnasol yn erbyn yr ymgeisydd neu unrhyw reolwr safle;<br>• A wrthodwyd rhoi neu adnewyddu trwydded metel sgrap yn flaenorol; |

| | |
|---|---|
| | • A wrthodwyd rhoi trwydded neu gofrestriad amgylcheddol yn flaenorol;<br>• A gafodd unrhyw drwydded metel sgrap ei dirymu'n flaenorol;<br>• A yw'r ymgeisydd wedi dangos y bydd gweithdrefnau digonol ar waith i gydymffurfio â'r Ddeddf. |
| | |
| 6.3 | Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff yr Awdurdod ystyried collfarnau am droseddau amherthnasol. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun a bydd yr wybodaeth a ddarperir yn cael ei phwysoli'n briodol. |
| | |
| 6.4 | Bydd yr holl bwyntiau uchod yn berthnasol i unrhyw gyfarwyddwr, unrhyw ysgrifennydd cwmni neu unrhyw gyfarwyddwr cysgodol os nad yw'r ymgeisydd yn unigolyn. |
| | |
| 6.5 | Os bydd ymgeisydd neu unrhyw reolwr safle wedi'i gael yn euog o drosedd berthnasol, caiff y Cyngor gynnwys yn y drwydded un o'r amodau a ganlyn, neu'r ddau ohonynt:<br>• Mai dim ond rhwng 9:00am a 5:00pm y caiff y deliwr dderbyn unrhyw fetel;<br>a<br>• Bod rhaid cadw unrhyw fetel sgrap ar y ffurf y mae'n dod i law am gyfnod penodedig o hyd at 72 awr. |
| | |
| 6.6 | Os nad yw'r Cyngor yn fodlon bod ymgeisydd yn 'berson addas' i ddal Trwydded Deliwr Metel Sgrap, neu os nad yw'n tybio ei bod yn 'addas' i ddeiliad trwydded barhau i ddal trwydded, rhaid i'r Cyngor ystyried gwrthod y cais neu ddirymu'r drwydded os yw eisoes wedi rhoi trwydded. |
| | |
| **Hawl i wneud sylwadau llafar**<br>**(Apelio yn erbyn y penderfyniad cychwynnol i wrthod neu i ddirymu trwydded)** | |
| 6.7 | Os yw'r Cyngor yn cynnig gwrthod rhoi trwydded neu'n cynnig dirymu/amrywio trwydded, rhaid iddo roi hysbysiad i'r ymgeisydd/trwyddedai sy'n nodi'r hyn y mae'r Awdurdod yn bwriadu ei wneud a'r rhesymau dros wneud hynny. Rhaid i'r hysbysiad hwn hefyd nodi y gall yr ymgeisydd/trwyddedai, o fewn y cyfnod penodedig, naill ai:<br>a) gwneud sylwadau am y cynnig; neu<br>b) rhoi gwybod i'r Awdurdod fod yr ymgeisydd/trwyddedai am wneud hynny. |
| | |
| 6.8 | Ni chaniateir i'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad fod yn llai na 14 diwrnod sy'n cychwyn ar y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad i'r ymgeisydd/trwyddedai. O fewn y cyfnod hwn, rhaid i'r ymgeisydd/trwyddedai roi gwybod i'r Cyngor nad yw am wneud sylwadau. Os bydd y cyfnod hwn yn dod i ben heb i'r ymgeisydd/trwyddedai wneud sylwadau neu roi gwybod i'r Awdurdod ei fod am wneud hynny, caiff yr Awdurdod wrthod rhoi trwydded neu ddirymu neu amrywio trwydded a roddwyd eisoes. |

| | |
|---|---|
| 6.9 | Os bydd yr ymgeisydd/trwyddedai'n rhoi gwybod i'r Awdurdod o fewn y cyfnod penodedig ei fod am wneud sylwadau, rhaid i'r Awdurdod ganiatáu cyfnod rhesymol iddo wneud sylwadau o'r fath. Caiff yr Awdurdod wrthod y cais neu ddirymu neu amrywio'r drwydded os na fydd yr ymgeisydd yn gwneud sylwadau o fewn y cyfnod hwnnw. |
| | |
| 6.10 | Os bydd yr ymgeisydd/trwyddedai'n rhoi gwybod i'r Awdurdod ei fod am wneud sylwadau llafar, rhaid i'r Awdurdod roi cyfle iddo ymddangos gerbron unigolyn a benodir gan yr Awdurdod a chael gwrandawiad ganddo. Mewn achos o'r fath, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Ffordd o Fyw fydd yr unigolyn hwn, ar y cyd â Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad. |
| | |
| 6.11 | Fel rheol, bydd yr asiantaethau hynny sydd wedi gwneud sylwadau ynghylch y cais hefyd yn bresennol yn y gwrandawiad a bydd modd iddynt gyflwyno eu hachos gerbron yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Ffordd o Fyw, ynghyd â Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad a fydd yn penderfynu ynghylch y sylwadau. |
| | |
| **7. Rhoi gwybod am benderfyniad** | |
| | |
| 7.1 | Os bydd y Cyngor yn gwrthod cais, neu'n dirymu neu'n amrywio trwydded, rhaid iddo roi hysbysiad i'r ymgeisydd/trwyddedai sy'n nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto. Rhaid i'r hysbysiad hefyd ddatgan bod gan yr ymgeisydd/trwyddedai hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, y cyfnod sydd ar gael iddo apelio yn erbyn y penderfyniad ac, os bwriedir dirymu neu amrywio trwydded, y dyddiad y bydd y dirymiad neu'r amrywiad yn dod i rym. |
| | |
| **8. Amrywio trwydded** | |
| | |
| 8.1 | Gall ymgeisydd wneud cais i'r Cyngor i amrywio trwydded drwy ei newid o'r naill fath i'r llall. Rhaid gwneud cais i amrywio trwydded os bydd y pethau a ganlyn yn newid:<br>• Trwydded safle - enw'r trwyddedai, y safleoedd, rheolwr safle<br>• Trwydded casglwr - enw'r trwyddedai<br>Gall amrywiad newid enw'r trwyddedai, ond ni all drosglwyddo'r drwydded i rywun arall. |
| | |
| 8.2 | Rhaid gwneud cais i'r awdurdod sydd wedi rhoi'r drwydded a rhaid cynnwys manylion y newidiadau i'w gwneud i'r drwydded. |
| | |
| **9. Dirymu trwydded** | |
| | |
| 9.1 | Caiff yr Awdurdod ddirymu trwydded metel sgrap os yw'n fodlon nad yw'r trwyddedai'n masnachu fel deliwr metel sgrap ar unrhyw un o'r safleoedd a |

| | |
|---|---|
| | nodir yn y drwydded. |
| | |
| 9.2 | Caiff yr Awdurdod ddirymu trwydded os yw'n fodlon nad yw rheolwr safle a enwir yn y drwydded yn gweithredu fel rheolwr safle ar unrhyw un o'r safleoedd a nodir yn y drwydded. |
| | |
| 9.3 | Caiff yr awdurdod ddirymu trwydded os nad yw'n fodlon mwyach fod y trwyddedai'n berson addas i fasnachu fel deliwr metel sgrap. |
| | |
| 9.4 | Bydd dirymiad neu amrywiad o dan yr adran hon yn dod i rym pan nad oes modd apelio o dan adran 16.9 mewn perthynas â dirymu neu amrywio’r drwydded, neu pan benderfynir yn derfynol ar apêl o'r fath neu pan gaiff apêl o'r fath ei thynnu'n ôl. |
| | |
| 9.5 | Os bydd yr Awdurdod yn tybio na ddylai'r drwydded barhau i fod mewn grym heb amodau, caiff ddarparu, drwy hysbysiad:<br>a) bod un o'r amodau a bennir yn adran 3.8, neu'r ddau ohonynt, yn berthnasol i'r drwydded hyd nes i ddirymiad o dan yr adran hon ddod i rym;<br>neu<br>b) bod yr amrywiad o dan yr adran hon yn dod i rym ar unwaith. |
| | |
| **10. Apelio** | |
| | |
| 10.1 | Caiff ymgeisydd apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn penderfyniad i wrthod cais neu i amrywio trwydded. Caiff y trwyddedai apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn cynnwys un o'r amodau a geir yn adran 3.8 mewn trwydded neu yn erbyn penderfyniad i ddirymu neu i amrywio trwydded o dan adran 4 o Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013. |
| | |
| 10.2 | Rhaid apelio cyn pen 21 diwrnod sy'n cychwyn ar ddiwrnod yr hysbysiad sy’n rhoi gwybod bod cais wedi’i wrthod, bod amod yn cael ei gynnwys mewn trwydded, neu fod trwydded yn cael ei dirymu neu ei hamrywio. |
| | |
| 10.3 | I wneud apêl o dan y paragraff hwn, defnyddir y weithdrefn cwyn ar gyfer gorchymyn yn unol â Deddf Llysoedd Ynadon 1980. At ddibenion y cyfnod a ganiateir i apelio, dylid ystyried mai’r diwrnod y gwneir y gŵyn yw’r diwrnod y caiff yr apêl ei gwneud. |
| | |
| 10.4 | Os gwneir apêl, caiff y Llys Ynadon gadarnhau, amrywio neu wrthdroi penderfyniad y Cyngor, a rhoi’r cyfarwyddiadau hynny sy'n briodol yn ei dyb ef gan roi sylw i ddarpariaethau'r Ddeddf. |
| | |
| **11. Cofrestr trwyddedau** | |
| | |
| 11.1 | Rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru gadw cofrestr o'r trwyddedau metel sgrap a |

| | |
|---|---|
| | roddir gan awdurdodau lleol Cymru. |
| | |
| 11.2 | Rhaid i bob cofnod nodi:<br>a) enw'r awdurdod sydd wedi rhoi'r drwydded;<br>b) enw'r trwyddedai;<br>c) unrhyw enw masnachu sydd gan y trwyddedai;<br>d) cyfeiriad y safle a nodir yn y drwydded;<br>e) y math o drwydded;<br>f) y dyddiad y bydd y drwydded yn dod i ben. |
| | |
| 11.3 | Mae'r gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei gweld. |
| | |
| **12. Gofynion hysbysu** | |
| | |
| 12.1 | Rhaid i rywun sy'n gwneud cais i gael trwydded metel sgrap, neu i adnewyddu neu amrywio trwydded, roi gwybod i'r awdurdod y cyflwynwyd y cais iddo am unrhyw newidiadau sy'n effeithio'n sylweddol ar gywirdeb yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd mewn perthynas â'r cais. |
| | |
| 12.2 | Rhaid i drwyddedai nad yw'n masnachu fel deliwr metel sgrap yn ardal yr Awdurdod sydd wedi rhoi'r drwydded roi gwybod i'r Awdurdod cyn pen 28 diwrnod. |
| | |
| 12.3 | Os rhoddir trwydded i fusnes o dan enw masnachu, rhaid i'r trwyddedai roi gwybod i'r Awdurdod sydd wedi rhoi'r drwydded am unrhyw newid i'r enw hwnnw cyn pen 28 diwrnod. |
| | |
| 12.4 | Rhaid i'r Awdurdod roi gwybod i Gyfoeth Naturiol Cymru am:<br>a) unrhyw hysbysiad a roddir i'r Awdurdod o dan adrannau 11.2 neu 11.3;<br>b) unrhyw amrywiad a wnaed gan yr Awdurdod o dan adran 8 (amrywio'r math o drwydded neu'r materion a nodir yn y drwydded);<br>c) unrhyw drwydded a ddirymwyd gan yr Awdurdod. |
| | |
| 12.5 | Rhaid rhoi hysbysiad o dan adran 8 cyn pen 28 diwrnod ar ôl yr hysbysiad, yr amrywiad neu'r dirymiad o dan sylw. |
| | |
| **13. Arddangos trwydded** | |
| | |
| 13.1 | Rhaid arddangos trwydded safle ar bob safle a nodir yn y drwydded. Rhaid arddangos y copi yn amlwg mewn man sy'n hygyrch i'r cyhoedd. |
| | |
| 13.2 | Rhaid arddangos copi o drwydded casglwr ar unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio pan fydd y deliwr yn masnachu. Rhaid ei arddangos mewn modd sy'n galluogi rhywun sydd tu allan i'r cerbyd i'w ddarllen yn rhwydd. |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| **14. Gwirio manylion cyflenwr** | |
| | |
| 14.1 | Cyn iddo dderbyn metel sgrap, rhaid i'r deliwr metel sgrap wirio enw llawn a chyfeiriad yr unigolyn drwy gyfeirio at ddogfennau, data neu wybodaeth arall a geir o ffynhonnell ddibynadwy ac annibynnol. |
| | |
| 14.2 | Os na chaiff manylion y cyflenwr eu gwirio, bydd pob un o'r rhai a ganlyn yn euog o drosedd:<br>a) y deliwr metel sgrap;<br>b) os caiff metel ei dderbyn ar safle, rheolwr y safle;<br>c) unrhyw unigolyn sydd, o dan drefniadau a wnaed gan unigolyn ym mharagraff (a) neu (b), yn gyfrifol am wirio’r enw a'r cyfeiriad. |
| | |
| **15. Talu am fetel sgrap** | |
| | |
| 15.1 | Ni chaiff deliwr metel sgrap ond dalu am fetel sgrap drwy:<br>a) siec (nad yw'n drosglwyddadwy o dan adran 81A o Ddeddf Biliau Cyfnewid 1882); neu<br>b) trosglwyddiad electronig (a awdurdodir gan gerdyn credyd, cerdyn debyd neu fel arall). |
| | |
| 15.2 | Mae taliad yn cynnwys taliad ar ffurf nwyddau neu wasanaethau. |
| | |
| **16. Cofnodion: derbyn metel** | |
| 16.1 | Os bydd deliwr yn derbyn unrhyw fetel pan fydd yn masnachu, rhaid i'r deliwr gofnodi'r wybodaeth a ganlyn:<br>a) disgrifiad o'r metel, gan gynnwys y math o fetel (mathau os yw'n gymysgedd), ei ffurf, ei gyflwr, ei bwysau ac unrhyw farciau sy'n dangos pwy oedd y perchnogion blaenorol neu unrhyw nodweddion neilltuol;<br>b) dyddiad ac amser derbyn y metel;<br>c) rhif cofrestru'r cerbyd y cafodd y metel ei gludo ynddo;<br>d) enw llawn a chyfeiriad y sawl sydd wedi dod â'r metel;<br>e) enw llawn y sawl sy'n gwneud taliad ar ran y deliwr. |
| | |
| 16.2 | Rhaid i'r deliwr gadw copi o unrhyw ddogfennau a ddefnyddir i wirio enw a chyfeiriad y sawl sydd wedi dod â'r metel ato. |
| | |
| 16.3 | Os telir drwy siec, rhaid i'r deliwr gadw copi o'r siec. |
| | |
| 16.4 | Os telir drwy drosglwyddiad electronig, rhaid i'r deliwr gadw copi o'r dderbynneb sy'n dangos y trosglwyddiad, neu (os nad oes derbynneb sy'n |

| | |
|---|---|
| | dangos y trosglwyddiad) rhaid iddo gofnodi'r manylion sy'n dangos y trosglwyddiad. |
| | |
| **17. Cofnodion: Gwaredu metel** | |
| | |
| 17.1 | Yn ôl y Ddeddf, mae metel yn cael ei waredu:<br>a) p'run a yw ar yr un ffurf ag yr oedd pan gafodd ei brynu ai peidio;<br>b) p'run a yw'n cael ei drosglwyddo i berson arall ai peidio;<br>c) p'run a yw'r metel yn cael ei anfon o safle ai peidio. |
| | |
| 17.2 | Os caiff metel ei waredu wrth fasnachu o dan drwydded safle, rhaid cofnodi'r manylion a ganlyn:<br>a) disgrifiad o'r metel, gan gynnwys y math o fetel (neu'r mathau os yw'n gymysgedd), ei ffurf a'i bwysau;<br>b) dyddiad ac amser gwaredu'r metel;<br>c) os yw'n cael ei drosglwyddo i berson arall, ei enw llawn a'i gyfeiriad;<br>d) os ceir taliad am y metel (drwy ei werthu neu ei gyfnewid) y pris neu'r gydnabyddiaeth arall a gafwyd. |
| | |
| 17.3 | Os caiff metel ei waredu wrth fasnachu o dan drwydded casglwr, rhaid i'r deliwr gofnodi'r wybodaeth a ganlyn:<br>a) dyddiad ac amser gwaredu'r metel;<br>b) os yw'n cael ei drosglwyddo i berson arall, ei enw llawn a'i gyfeiriad. |
| | |
| **18. Cofnodion: Atodol** | |
| | |
| 18.1 | Rhaid cofnodi'r wybodaeth yn adrannau 15 ac 16 mewn ffordd sy'n sicrhau bod modd adnabod yr wybodaeth a'r metel sgrap y mae'n berthnasol iddo yn rhwydd drwy gyfeirio'r naill at y llall. |
| | |
| 18.2 | Rhaid i'r cofnodion y cyfeirir atynt yn adran 15 gael eu marcio mewn ffordd sy'n dangos y metel sgrap y maent yn berthnasol iddo. |
| | |
| 18.3 | Rhaid cadw cofnodion am dair blynedd sy'n cychwyn ar y diwrnod y mae'r metel yn dod i law neu (fel y bo'n briodol) y diwrnod y'i gwaredir. |
| | |
| 18.4 | Os na fydd deliwr metel sgrap yn bodloni gofyniad o dan adran 15 ac 16 neu'r adran hon, bydd pob un o'r rhai a ganlyn yn euog o drosedd:<br>a) y deliwr metel sgrap;<br>b) os caiff y metel ei dderbyn ar safle neu (fel y bo'n briodol) ei anfon o safle, rheolwr y safle;<br>c) unrhyw unigolyn sydd, o dan drefniadau a wnaed gan unigolyn ym mharagraff (a) neu (b), yn gyfrifol am gyflawni'r gofyniad. |
| | |
| 18.5 | Gall unigolyn yn is-adran 17.4 (a) neu (b) sydd wedi'i gyhuddo o drosedd o |

| | |
|---|---|
| | dan yr adran hon ei amddiffyn ei hun drwy brofi ei fod<br>a) wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod y gofyniad yn cael ei ddiwallu<br>b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y trefniadau hynny'n cael eu bodloni. |
| | |
| **19. Cydymffurfiaeth** | |
| | |
| 19.1 | Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl i gwnstabl neu swyddog a awdurdodwyd yn briodol gan y Cyngor gael mynediad i safleoedd delwyr metel sgrap trwyddedig a didrwydded ac archwilio'r safleoedd hynny. Nodir darpariaethau llawn y pwerau hyn yn Atodiad 3. |
| | |
| 19.2 | Nid yw'r Ddeddf yn rhoi hawl i un o swyddogion y Cyngor archwilio safleoedd delwyr metel sgrap trwyddedig a didrwydded tu allan i ardal yr awdurdod. |
| | |
| 19.3 | Mae'r Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau cydymffurfiaeth i ddiogelu'r amgylchedd a'r gymuned ac i sicrhau bod busnesau'n cael eu trin yn deg er mwyn iddynt fasnachu'n deg. Gwasanaeth gweinyddu a chydymffurfio'r drefn drwyddedu yw un o'r gwasanaethau hynny. |
| | |
| 19.4 | Bydd cydymffurfiaeth yn seiliedig ar yr egwyddorion y dylai busnesau:<br>• Gael esboniadau glir gan reoleiddwyr ynghylch yr hyn y mae angen iddynt ei wneud ac erbyn pryd;<br>• Cael cyfle i unioni unrhyw wahaniaethau cyn bod camau cydymffurfio'n cael eu cymryd, oni bai fod angen gweithredu ar unwaith;<br>• Cael esboniad o'u hawl i apelio. |
| | |
| 19.5 | Mae'r Awdurdod yn cydnabod buddiannau dinasyddion a busnesau a bydd yn cydweithio'n agos â phartneriaid i gynorthwyo deiliaid trwydded i gydymffurfio â'r gyfraith. Fodd bynnag, bydd yn cymryd camau cymesur ond cadarn yn erbyn y rheini sy'n cyflawni troseddau difrifol neu'n torri'r gyfraith yn gyson. |
| | |
| **20. Cau safleoedd didrwydded** | |
| | |
| **Dehongli** | |
| 20.1 | Mae perchennog, lesddeiliad neu feddiannwr safle yn unigolyn â buddiant yn y safle. Ni chaiff awdurdod lleol ond arfer ei bwerau mewn perthynas â safleoedd yn ei ardal. |
| | |
| **Hysbysiad cau** | |
| 20.2 | Ni ellir rhoi hysbysiad cau os yw'r safle'n safle preswyl. Rhaid i gwnstabl |

| | |
|---|---|
| | neu’r awdurdod lleol fod yn fodlon bod y safle’n cael ei ddefnyddio gan ddeliwr metel sgrap i fasnachu ac nad yw’r safle’n safle trwyddedig. |
| | |
| 20.3 | Caiff cwnstabl neu awdurdod lleol roi ‘hysbysiad cau’ sy’n datgan ei fod yn fodlon bod yr uchod yn gywir, y rhesymau dros hynny, bod modd i’r cwnstabl neu’r awdurdod lleol wneud cais i lys am orchymyn cau, a’r camau y gellir eu cymryd i sicrhau bod y defnydd honedig o’r safle’n dod i ben. |
| | |
| 20.4 | Rhaid rhoi’r hysbysiad i’r sawl y mae’n ymddangos ei fod yn rheoli’r safle ac i unrhyw un y mae’n ymddangos ei fod yn gyfarwyddwr, yn rheolwr neu’n swyddog arall ar gyfer y busnes o dan sylw. Gellir rhoi’r hysbysiad hefyd i unrhyw unigolyn â buddiant yn y safle. |
| | |
| 20.5 | Rhaid rhoi’r hysbysiad i unigolyn sy’n meddiannu rhan arall o unrhyw adeilad neu strwythur y mae’r safle’n rhan ohono ac y mae’r cwnstabl neu’r awdurdod lleol yn credu ar adeg rhoi’r hysbysiad y byddai’n cael ei rwystro rhag mynd i’r rhan arall o’r safle pe bai gorchymyn cau’n cael ei wneud mewn perthynas â’r safle. |
| | |
| **Canslo hysbysiad cau** | |
| 20.6 | Gall ‘hysbysiad canslo’ a roddir gan gwnstabl neu awdurdod lleol ganslo hysbysiad cau. Mae’n dod i rym pan y’i rhoddir i unrhyw un o’r unigolion y rhoddwyd yr hysbysiad cau iddo. Rhaid ei roi hefyd i unrhyw unigolyn arall y rhoddwyd yr hysbysiad cau iddo. |
| | |
| **Gwneud cais am orchymyn cau** | |
| 20.7 | Pan fydd hysbysiad cau wedi’i roi, caiff cwnstabl neu’r awdurdod lleol wneud cwyn i Lys Ynadon i gael gorchymyn cau. Ni chaniateir gwneud hyn lai na saith diwrnod ar ôl dyddiad rhoi’r hysbysiad cau na mwy na chwe mis ar ôl y dyddiad hwnnw. |
| | |
| 20.8 | Ni chaniateir gwneud cwyn o dan y paragraff hwn os yw’r cwnstabl neu’r awdurdod yn fodlon nad yw’r safle’n cael ei ddefnyddio (neu ei ddefnyddio mwyach) gan ddeliwr metel sgrap i fasnachu ac nad oes unrhyw debygrwydd rhesymol y bydd y safle’n cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw yn y dyfodol. Caiff ynad gyhoeddi gwŷs i ateb y gŵyn. Rhaid iddi gael ei chyfeirio at unrhyw un y rhoddwyd yr hysbysiad cau iddo a rhaid iddi gynnwys y dyddiad, yr amser a’r lleoliad y cynhelir gwrandawiad ynghylch y gŵyn. |
| | |
| **Gorchymyn cau** | |
| 20.9 | Yn unol â gorchymyn cau, mae'n ofynnol cau safle ar unwaith i'r cyhoedd ac iddo barhau i fod ar gau hyd nes bod cwnstabl neu'r awdurdod lleol yn terfynu'r gorchymyn cau drwy dystysgrif. Bydd deliwr metel sgrap yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r safle i fasnachu ar unwaith a bydd unrhyw ddiffynnydd yn talu i'r llys y swm a bennir gan y llys ac ni fydd y swm hwnnw'n cael ei |

| | |
|---|---|
| | ryddhau gan y llys i'r unigolyn hwnnw hyd nes bod gofynion eraill y gorchymyn wedi'u bodloni. |
| | |
| 20.10 | Caiff y gorchymyn cau gynnwys amod sy'n ymwneud â gadael unigolion i mewn i'r safle, a mynediad gan unigolion i ran arall o unrhyw adeilad neu strwythur arall y mae'r safle'n rhan ohono. |
| | |
| 20.11 | Caiff gorchymyn cau gynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n briodol yn nhyb y llys i ymdrin â'r canlyniadau os bydd y gorchymyn yn peidio â chael effaith. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud y gorchymyn cau, rhaid i'r achwynydd osod copi ohono mewn man amlwg ar y safle y mae'n berthnasol iddo. |
| **Terfynu gorchymyn cau drwy dystysgrif** | |
| 20.13 | Pan fydd gorchymyn cau wedi'i wneud a bod cwnstabl neu awdurdod lleol yn fodlon nad oes angen y gorchymyn mwyach, gellir gwneud tystysgrif. Bydd yn terfynu'r gorchymyn cau a bydd y llys yn rhyddhau unrhyw swm a dalwyd i'r llys i'r diffynnydd. |
| | |
| 20.14 | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud tystysgrif, rhaid i gwnstabl neu'r awdurdod lleol roi copi i unrhyw un y gwnaed y gorchymyn cau yn ei erbyn, rhoi copi i swyddog dynodedig y llys a wnaeth y gorchymyn, a gosod copi ohoni mewn man amlwg ar y safle yr oedd y gorchymyn yn berthnasol iddo. |
| | |
| 20.15 | Rhaid rhoi copi o'r dystysgrif i unrhyw un sy'n gofyn i gael copi. |
| | |
| **Rhyddhau gorchymyn cau gan lys** | |
| 20.16 | Gellir rhyddhau gorchymyn cau drwy wneud cwyn i Lys Ynadon. Gall unrhyw un y rhoddwyd yr hysbysiad cau perthnasol iddo neu unrhyw un a chanddo fuddiant yn y safle ond na roddwyd yr hysbysiad cau iddo wneud hyn. |
| | |
| 20.17 | Bydd y llys yn gwneud gorchymyn rhyddhau os yw'n fodlon nad oes angen y gorchymyn cau mwyach. Caiff yr ynad gyhoeddi gwŷs i gwnstabl neu i'r awdurdod lleol, fel y gwêl yr ynad yn dda, i fynnu bod yr unigolyn hwnnw'n ymddangos gerbron y llys ynadon i ateb y gŵyn. |
| | |
| 20.18 | Os cyhoeddir gwŷs, rhaid rhoi hysbysiad o'r dyddiad, yr amser a'r lleoliad y cynhelir gwrandawiad ynghylch y gŵyn i bob unigolyn y rhoddwyd yr hysbysiad cau iddo (ac eithrio'r achwynydd). |
| | |
| **Apelio** | |
| 20.19 | Caniateir apelio i Lys y Goron yn erbyn:<br>a) gorchymyn cau;<br>b) penderfyniad i beidio â gwneud gorchymyn cau; |

| | |
|---|---|
| | c) gorchymyn rhyddhau;<br>d) penderfyniad i beidio â gwneud gorchymyn rhyddhau. |
| | |
| 20.20 | Rhaid apelio cyn pen 21 diwrnod sy'n cychwyn ar y dyddiad y gwnaed y gorchymyn neu'r penderfyniad o dan sylw. |
| | |
| 20.21 | Caiff unrhyw un y rhoddwyd yr hysbysiad cau iddo neu unrhyw un a chanddo fuddiant yn y safle ond na roddwyd yr hysbysiad cau iddo wneud apêl o dan a) neu d). |
| | |
| 20.22 | Caiff cwnstabl neu'r awdurdod lleol wneud apêl o dan b) ac c). |
| | |
| **Gorfodi gorchymyn cau** | |
| 20.23 | Mae unigolyn yn euog o drosedd, heb esgus rhesymol, os yw'n caniatáu i safle fod yn agored yn groes i orchymyn cau neu os yw'n methu â chydymffurfio â gorchymyn cau neu'n gweithredu'n groes i orchymyn cau. |
| | |
| 20.24 | Os yw'r gorchymyn cau wedi'i wneud, caiff cwnstabl neu unigolyn a awdurdodwyd gan yr awdurdod lleol (gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen) fynd i'r safle ar unrhyw adeg resymol ac, ar ôl mynd i'r safle, caiff wneud unrhyw beth sy'n rhesymol angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gorchymyn. |
| | |
| 20.25 | Os bydd y perchennog, y meddiannwr neu unrhyw unigolyn arall sy'n gyfrifol am y safle yn gofyn i'r swyddog brofi pwy ydyw neu brofi bod ganddo hawl i arfer y pwerau, rhaid i'r swyddog ddangos tystiolaeth i brofi’r pethau hyn. |
| | |
| **21. Dirprwyo awdurdod** | |
| | |
| 21.1 | Bydd penderfyniadau ynghylch materion trwyddedu'n cael eu gwneud yn unol â'r cynllun dirprwyo cymeradwy sy’n tanlinellu'r egwyddorion y dylid penderfynu'n brydlon, yn effeithlon ac yn effeithiol. |
| | |
| 21.2 | Bydd y cynllun hwn yn cael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd fel y dangosir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. |
| | |

## ATODIAD 1 GWNEUD CAIS

Dylid anfon cais i gael trwydded i'r cyfeiriad isod:

Y Tîm Trwyddedu
Polisi a Pherfformaid
Gofal, Diogelu a'r Ffordd o Fyw
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

I gael mwy o fanylion ynghylch sut i wneud cais, dylid cysylltu â'r Tîm Trwyddedu drwy ffonio 01545 570881.

**Rhaid darllen y weithdrefn a ganlyn ochr yn ochr â'r Ddeddf, unrhyw reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref.**

1. Rhaid i unrhyw un sydd am wneud cais i gael trwydded safle neu drwydded casglwr metel sgrap lenwi'r ffurflen gais ragnodedig a'i chyflwyno i'r Tîm Trwyddedu ynghyd â'r ffi hysbysedig a thystysgrif DBS sylfaenol ar gyfer pob un a enwir yn y cais. Ni fyddwn ond yn derbyn tystysgrif DBS a roddwyd yn ystod y tri mis diwethaf. Bydd rhaid i ymgeiswyr brofi pwy ydyn nhw drwy ddarparu dogfen adnabod ffotograffig e.e. pasbort neu drwydded yrru â llun a bil cyfleustodau.

2. Ni fyddwn ond yn derbyn ceisiadau sydd wedi'u cwblhau'n gywir. Byddwn yn gwneud llungopi o'r tystysgrifau DBS sylfaenol a'r dogfennau adnabod ac yn dychwelyd y dogfennau gwreiddiol at yr ymgeisydd.

3. Byddwn yn anfon copi o'r cais at Dîm Rheoli'r Amgylchedd Cyngor Sir Ceredigion.

4. Byddwn yn gwneud ymholiad ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd. Gweler canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd.

5. Caniateir 14 diwrnod i'r ymgyngoreion wneud sylwadau i wrthwynebu rhoi'r drwydded os ydynt yn tybio nad yw unrhyw un o'r bobl a enwir yn y cais yn addas i gael trwydded.

6. Yna, bydd swyddog trwyddedu'n asesu'r cais i benderfynu a oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu nad yw'r ymgeisydd neu unrhyw rai o'r bobl a enwir yn y cais yn addas. Rhaid ystyried y materion a bennir yn adran 3 o'r Ddeddf, y troseddau a bennir mewn rheoliadau a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref. Mae'n hanfodol cael gafael ar wybodaeth gan yr heddlu am unrhyw drosedd berthnasol a ddatgelir cyn penderfynu a ddylid rhoi trwydded ai peidio. Gall fod angen gwneud ymholiad ar wahân os nad yw'r heddlu wedi gwrthwynebu'r cais.

7. Bydd un o swyddogion yr awdurdod lleol sydd wedi'i awdurdodi'n briodol yn archwilio'r safle os yw'n gais am drwydded safle neu os yw'r ymgeisydd yn

gasglwr i asesu pa mor addas yw'r ymgeisydd/safle. Bydd hyn yn cynnwys archwilio unrhyw safle, unrhyw gerbyd ac unrhyw gofnodion a gedwir eisoes. Bydd yn rhoi adroddiad i'r swyddog trwyddedu am unrhyw ddiffygion a fyddai'n atal yr awdurdod rhag rhoi trwydded.

8. Gall y swyddog trwyddedu gyf-weld unrhyw un a enwir yn y cais os yw'n tybio bod hynny'n angenrheidiol. Dylai'r swyddog trwyddedu hefyd roi cyngor ac arweiniad ar y ddeddfwriaeth a’r hyn y mae’n gofyn i ddeiliad y drwydded a'r unigolion a enwir yn y cais ei wneud.

9. Gall swyddog sydd wedi'i awdurdodi'n briodol wneud sylwadau i wrthwynebu rhoi trwydded os oes ganddo dystiolaeth sy'n dangos nad yw unrhyw un o'r bobl a enwir yn y cais yn addas i gael trwydded.

10. Os bydd swyddog trwyddedu neu ymgynghorai'n gwneud sylwadau, bydd y rheolwr trwyddedu'n asesu'r sylwadau ac yn penderfynu a ddylid rhoi trwydded.

11. Os na wneir sylwadau neu os yw gwybodaeth arall yn bodloni'r sail dros y sylwadau, rhoddir trwydded.

12. Os na roddir trwydded, bydd yr Awdurdod yn rhoi gwybod i’r ymgeisydd fod ei gais wedi'i wrthod, y rhesymau dros wrthod y cais, a bod ganddo 14 diwrnod i roi gwybod i'r Awdurdod ei fod am wneud sylwadau llafar i gefnogi ei gais.

13. Os bydd yr Awdurdod yn cael gwybod bod yr ymgeisydd am wneud sylwadau llafar, bydd yn trefnu cyfarfod â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Ffordd o Fyw â’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

14. Bydd y swyddogion yn ysgrifennu adroddiad a'i anfon at yr ymgeisydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Ffordd o Fyw â’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad o leiaf 14 diwrnod cyn y cyfarfod.

15. Yn y cyfarfod, bydd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Ffordd o Fyw â’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad yn clywed gan unrhyw swyddog neu ymgynghorai sydd wedi gwneud sylwadau a chan yr ymgeisydd i benderfynu a ellir rhoi trwydded gyda'r amodau a bennir yn y Ddeddf neu hebddynt.

16. Os penderfynir rhoi trwydded, rhoddir trwydded. Os penderfynir gwrthod rhoi trwydded, bydd cyfreithiwr yr Awdurdod yn anfon hysbysiad at yr ymgeisydd sy'n nodi'r sail dros wrthod rhoi trwydded a'i hawl i apelio i lys ynadon cyn pen 21 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad.

**GWEITHDREFN AR GYFER SYLWADAU LLAFAR (GWRANDAWIADAU)**

**Cyflwyniad**

- Mae gan ymgeiswyr hawl i roi sylwadau llafar i berson enwebedig os bydd swyddogion yn gwrthod rhoi trwydded.

- Cafodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Ffordd o Fyw â’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad eu dynodi'n berson enwebedig. Bydd yr Aelod Cabinet yn cadeirio'r cyfarfod a gall ofyn cwestiynau i unrhyw un.

- Bydd cyfreithiwr yn bresennol i roi cyngor i'r person enwebedig a bydd yn rhoi cyngor iddo ynghylch ystyriaethau cyfreithiol angenrheidiol.

- Rhaid i'r person enwebedig egluro'r weithdrefn ar ddechrau'r cyfarfod.

- Rhaid i'r gwrandawiad fod "ar ffurf trafodaeth sy’n cael ei harwain gan yr Awdurdod a gellir caniatáu croesholi os yw'r Awdurdod yn tybio ei bod yn ofynnol croesholi i ystyried y sylwadau, y cais neu'r hysbysiadau yn ôl gofynion yr achos".

- Bydd pob parti'n cael digon o amser i wneud eu pwyntiau, sylwadau ac ati.

- Bydd y Cadeirydd yn penderfynu ar y cais ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod gan ddilyn y darpariaethau a nodir yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol sydd mewn grym ar y pryd.

**Gweithdrefn**

1. Ar ddechrau pob gwrandawiad, bydd y cyfreithiwr yn egluro'r weithdrefn a ddilynir yn y gwrandawiad a bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod pob parti sy’n bresennol, neu ei gynrychiolydd, yn deall y weithdrefn a ddilynir.

2. Bydd y cyfarfod fel arfer yn breifat oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth breifat yn cael ei thrafod.

3. Bydd pob parti'n cael digon o amser i wneud sylwadau ac i gyflwyno unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth y mae am ei rhoi i'r Cadeirydd.

4. Bydd trefn arferol y busnes fel y’i nodir isod, ond gall y Cadeirydd newid y drefn hon, gan ddibynnu ar y materion penodol sy'n codi yn yr achos a ph’run a oes gan yr ymgeisydd neu'r partïon eraill gynrychiolaeth gyfreithiol ai peidio.

5. Fel arfer, dilynir y weithdrefn a ganlyn:-

(1) Bydd y Cadeirydd yn gofyn i bob un sy'n bresennol ei gyflwyno ei hun ac egluro'i fuddiant yn y mater.

(2) Bydd y swyddog trwyddedu'n darparu gwybodaeth gefndir am y cais a'r materion gerbron y Cadeirydd os oes angen, a bydd yn egluro'r rhesymau dros unrhyw hysbysiad a roddwyd i unrhyw barti i ofyn iddo egluro unrhyw bwyntiau penodol yn y gwrandawiad. Bydd yn rhoi cyngor i'r Cadeirydd ar unrhyw agwedd ar y ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r polisi sy'n berthnasol i'r cais.

(3) Gofynnir i unrhyw wrthwynebwyr neu awdurdodau perthnasol sydd wedi gwrthwynebu neu wneud sylwadau perthnasol gyflwyno eu hachos yn eu tro, gan gyfeirio'r Cadeirydd at unrhyw ddogfennau perthnasol a galw unrhyw dystiolaeth.

(4) Bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno ei achos, yn cyfeirio'r Cadeirydd at unrhyw ddogfennau ac yn galw unrhyw dystiolaeth.

(5) Ar ôl i bob parti wneud sylwadau, bydd y Cadeirydd, neu'r cyfreithiwr ar ran y Cadeirydd, yn codi unrhyw gwestiynau y mae angen eu hegluro.

8 Pan fydd pob parti wedi cyflwyno ei achos, bydd y cyfreithiwr yn rhoi cyngor i'r Cadeirydd ar y materion y mae angen penderfynu arnynt yng ngoleuni'r dystiolaeth, y sylwadau a’r opsiynau sydd ar gael.

9 Bydd y Cadeirydd yn gofyn yn eu tro i'r bobl a ganlyn awgrymu unrhyw gwestiynau pellach y mae angen i unrhyw barti neu dyst arall eu hateb, a bydd y Cadeirydd yn gofyn y cwestiynau hynny os gwêl yn dda:

- y swyddog trwyddedu
- y partïon perthnasol a'r awdurdodau perthnasol
- yr ymgeisydd

Caniateir cwestiynau o'r fath yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.

10 Pan fydd y cwestiynau hyn wedi dod i ben, bydd y Cadeirydd a'r cyfreithiwr ar ran y Cadeirydd yn gofyn unrhyw gwestiynau pellach sy'n briodol yn eu tyb nhw.

11 Gofynnir i bob parti wneud sylwadau terfynol yn y drefn a nodir yn (9) uchod.

12 Bydd y cyfreithiwr yn rhoi cyngor i'r Cadeirydd ar unrhyw ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i’r mater o dan sylw.

13 Bydd y Cadeirydd yn symud i sesiwn gyfrinachol i ystyried ei benderfyniad.

14 Os bydd y Cadeirydd am gael cyngor ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol newydd, bydd y penderfynwyr yn ailgynnull i gael y cyngor hwn gan y cynrychiolydd cyfreithiol.

15 Os bydd y Cadeirydd am gael eglurhad o unrhyw fater sydd wedi codi yn ystod y gwrandawiad, bydd yn ailgynnull y cyfarfod i godi'r materion hynny. Bydd gan bob parti a restrir yn (9) uchod hawl i fod yn bresennol.

16 Cyhoeddir penderfyniad y Cadeirydd i'r partïon ar ôl iddo orffen ystyried y mater. Darperir y rhesymau i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig cyn pen 14 diwrnod.

**ATODIAD 2 TROSEDDAU PERTHNASOL**

*Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw. (Rheoliadau Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 (Troseddau Perthnasol Rhagnodedig a Chamau Gorfodi Perthnasol) 2013)*

The Secretary of State, in exercise of the powers conferred by sections 3(3)(b) and (c) and 20(4) of the Scrap Metal Dealers Act 2013(**1**) makes the Scrap Metal Dealers Act 2013 (Prescribed Relevant Offences and Relevant Enforcement Action) Regulations 2013 and came into force on 1st October 2013.

In these Regulations—

"environment-related offence" means an offence which relates to the transportation, shipment or transfer of waste, or to the prevention, minimisation or control of pollution of the air, water or land which may give rise to any harm; "harm" means:

i. harm to the health of human beings or other living organisms;
ii. harm to the quality of the environment;
iii. offence to the senses of human beings;
iv. damage to property; or
v. impairment of, or interference with, amenities or other legitimate uses of the environment.

**Relevant offences**

For the purposes of section 3(3)(b) of the Scrap Metal Dealers Act 2013, "relevant offence" means any offence specified in the Schedule to these Regulations, and includes an offence of—

a) attempting or conspiring to commit any offence falling within the Schedule;
b) inciting or aiding, abetting, counselling or procuring the commission of any offence falling within the Schedule, and
c) an offence under Part 2 of the Serious Crime Act 2007 (encouraging or assisting crime) committed in relation to any offence falling within the Schedule.

**Relevant enforcement action**

For the purposes of section 3(3)(c) of the Scrap Metal Dealers Act 2013, a person is the subject of "relevant enforcement action" if—

a) the person has been charged with an offence specified in the Schedule to these Regulations, and criminal proceedings in respect of that offence have not yet concluded; or
b) an environmental permit granted in respect of the person under the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010 has been revoked in whole, or partially revoked, to the extent that the permit no longer authorises the recovery of metal.

**SCHEDULE**

**PART 1** Primary Legislation

a) An offence under section 1, 5, or 7 of the Control of Pollution (Amendment) Act 1989
b) An offence under section 170 or 170B of the Customs and Excise Management Act 1979, where the specific offence concerned relates to scrap metal
c) An offence under section 110 of the Environment Act 1995
d) An offence under sections 33, 34 or 34B of the Environmental Protection Act 1990
e) An offence under section 9 of the Food and Environment Protection Act 1985
f) An offence under section 1 of the Fraud Act 2006, where the specific offence concerned relates to scrap metal, or is an environment-related offence
g) An offence under section 146 of the Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Act 2012
h) An offence under sections 327, 328 or 330 to 332 of the Proceeds of Crime Act 2002
i) Any offence under the Scrap Metal Dealers Act 2013
j) An offence under sections 1, 8,9,10, 11, 17, 18, 22 or 25 of the Theft Act 1968, where the specific offence concerned relates to scrap metal, or is an environment-related offence
k) Any offence under Part 1 of the Vehicles (Crime) Act 2001
l) An offence under sections 85, 202, or 206 of the Water Resources Act 1991

**PART 2** Secondary Legislation

a) An offence under regulation 38 of the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2007
b) An offence under regulation 38 of the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010
c) Any offence under the Hazardous Waste (England and Wales) Regulations 2005(
d) Any offence under the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005
e) An offence under regulation 17(1) of the Landfill (England and Wales) Regulations 2002
f) Any offence under the Pollution Prevention and Control (England and Wales) Regulations 2000
g) Any offence under the Producer Responsibility (Packaging Waste) Regulations 2007
h) Any offence under the Transfrontier Shipment of Waste Regulations 1994
i) Any offence under the Transfrontier Shipment of Waste Regulations 2007.
j) Any offence under the Waste (Electrical and Electronic Equipment) Regulations 2006

k) An offence under regulation 42 of the Waste (England and Wales) Regulations 2011.

**Crynodeb o'r cyfnodau adsefydlu sy'n berthnasol i ddedfrydau penodol (adran 139 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012)**

*Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.*

| *Sentence* | *End of rehabilitation period for adult offenders* | *End of rehabilitation period for offenders under 18 at date of conviction* |
|---|---|---|
| A custodial sentence of more than 30 months and up to, or consisting of, 48 months | The end of the period of 7 years beginning with the day on which the sentence (including any licence period) is completed | The end of the period of 42 months beginning with the day on which the sentence (including any licence period) is completed |
| A custodial sentence of more than 6 months and up to, or consisting of, 30 months | The end of the period of 48 months beginning with the day on which the sentence (including any licence period) is completed | The end of the period of 24 months beginning with the day on which the sentence (including any licence period) is completed |
| A custodial sentence of 6 months or less | The end of the period of 24 months beginning with the day on which the sentence (including any licence period) is completed | The end of the period of 18 months beginning with the day on which the sentence (including any licence period) is completed |
| Removal from Her Majesty's service | The end of the period of 12 months beginning with the date of the conviction in respect of which the sentence is imposed | The end of the period of 6 months beginning with the date of the conviction in respect of which the sentence is imposed |
| A sentence of service detention | The end of the period of 12 months beginning with the day on which the sentence is completed | The end of the period of 6 months beginning with the day on which the sentence is completed |
| A fine | The end of the period of 12 months beginning with the date of the conviction in respect of which the sentence is imposed | The end of the period of 6 months beginning with the date of the conviction in respect of which the sentence is imposed |
| A compensation order | The date on which the payment is made in full | The date on which the payment is made in full |
| A community or youth rehabilitation order | The end of the period of 12 months beginning with the day provided for by or under the order as the last day on which the order is to have effect | The end of the period of 6 months beginning with the day provided for by or under the order as the last day on which the order is to have effect |
| A relevant order | The day provided for by or under the order as the last day on which the order is to have effect | The day provided for by or under the order as the last day on which the order is to have effect |

**ATODIAD 3 CYDYMFFURFIAETH - HAWL I GAEL MYNEDIAD - ADRAN 16 O DDEDDF DELWYR METEL SGRAP 2013**

*Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.*

1. A constable or an officer of a local authority may enter and inspect a licensed site at any reasonable time on notice to the site manager.

2. A constable or an officer of a local authority may enter and inspect a licensed site at any reasonable time, otherwise than on notice to the site manager, if

a) reasonable attempts to give such notice have been made and have failed, or
a) entry to the site is reasonably required for the purpose of ascertaining whether the provisions of this Act are being complied with or investigating offences under it and (in either case) the giving of the notice would defeat that purpose.

3. (1) and (2) above do not apply to residential premises.

4. A constable or an officer of the Council is not entitled to use force to enter a premises in the exercise of the powers under sections (1) and (2) above.

5. A Magistrate may issue a warrant authorising entry to any premises within section 6 below if the Magistrate is satisfied by information on oath that there are reasonable grounds for believing that entry to the premises is reasonably required for the purpose of:

a) securing compliance with the provisions of the Act, or
b) ascertaining whether those provisions are being complied with.

6. Premises are within this section if:

a) the premises are a licensed site, or
b) the premises are not a licensed site but there are reasonable grounds for believing that the premises are being used by a scrap metal dealer in the course of business

7. The warrant is a warrant signed by the justice which:

a) specifies the premises concerned, and
b) authorises a constable or an officer of a local authority to enter and inspect the premises at any time within one month from the date of the warrant.

8. A constable or an officer of the Council may, if necessary, use reasonable force in the exercise of the powers under a warrant under section 5.

9. A constable or an officer of the Council may:

a) require production of, and inspect, any scrap metal kept at any premises mentioned in section 1 or 2 or in a warrant under section 5;

b) require production of, and inspect, any records kept in accordance with section 15 or 16 and any other records relating to payment for scrap metal;
c) take copies of or extracts from any such records.

10. Section 11 below applies if a constable or an officer of the Council who seeks to exercise powers under this section in relation to any premises.

11. If the owner, occupier or other person in charge of the premises requires the officer to produce:

a) evidence of the officer's identity, or
b) evidence of the officer's authority to exercise those powers the officer must produce that evidence.

12. In the case of an officer of the Council, the powers under this section are exercisable only in relation to premises in the area of the authority.

**ATODIAD 4   DIRPRWYO PWERAU**

| Y mater o dan sylw | Y Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad | Swyddog | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Ffordd o Fyw |
|---|---|---|---|---|
| Cymeradwyo'r polisi | Ie | X | X | X |
| Pennu’r ffioedd | Ie | X | X | X |
| Cais i gael trwydded safle neu drwydded casglwr | X | Os gwneir cais i roi sylwadau llafar | Ie | Os gwneir cais i roi sylwadau llafar |
| Cais i amrywio trwydded safle | X | Os gwneir cais i roi sylwadau llafar | Ie | Os gwneir cais i roi sylwadau llafar |
| Cais i ddirymu trwydded safle neu drwydded casglwr | X | Os gwneir cais i roi sylwadau llafar | Ie | Os gwneir cais i roi sylwadau llafar |
| Cynnwys amodau ar drwydded | X | Os gwneir cais i roi sylwadau llafar | Ie | Os gwneir cais i roi sylwadau llafar |
| Rhoi hysbysiad cau | X | X | Ie | X |
| Canslo hysbysiad cau | X | X | Ie | X |
| Cais i gael gorchymyn cau gan ynad | X | X | Ar y cyd â'r Gwasanaethau Cyfreithiol | X |